# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Ysgol Edmwnd Prys
## Gellilydan
## Blaenau Ffestiniog
## Gwynedd
## LL41 4DY

**Rhif yr Ysgol: 6612192**

**Dyddiad yr Arolygiad: 06/06/07**

**gan**

**David Martin Cray**
**16768**

**Dyddiad Cyhoeddi: 08/08/07**

**O dan rif contract Estyn: 1118206**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

83 Mae modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn nodwedd ragorol. Darperir gwasanaethau o gydaddoli sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol ac sydd wedi'u seilio'n gadarn ar egwyddorion Cristnogol. Mae'r naws ddefosiynol a'r cyfleoedd cyson a roddir i'r disgyblion fyfyrio'n dawel ac i gynnig gweddïau byrfyfyr yn eithriadol.

84 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu datblygiad moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion o ansawdd uchel. Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd cadarn ac yn gweithio'n ddiwyd i feithrin parch, gonestrwydd a chwrteisi ymysg y disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth gref o'r gwerthoedd moesol sy'n llywio eu cymuned. Mae'r cyfnodau Amser Cylch a thrafodaethau mewn gwersi addysg grefyddol hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ehangu a chyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o faterion moesol yn ogystal â hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r athrawon a'r holl oedolion eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn fodelau rôl gwych. Caiff ymwelwyr a'r ysgol eu trin â pharch a chwrteisi.